Trethi Annomestig - Rhyddhad i Gyrff Elusennol **CYNGOR GWYNEDD**

	Categori y Rhyddhad	Mandadol (Adran 43 Deddf 1988)	Dewis Lleol (Adran 47 Deddf 1988)
1	**NEUADDAU PENTREFI / NEUADDAU CYMUNEDOL / CANOLFANNAU CYMUNEDOL ayb**		
(a)	Wedi'u cofrestu'n Elusen	80%	20%
(b)	Heb eu cofrestru'n Elusen, a heb eu sefydlu na'u rhedeg am elw	0%	100%
2	**EIDDO MUDIADAU IEUENCTID**		
(a)	Wedi'u cofrestu'n Elusen gyda chysylltiadau lleol	80%	20%
(b)	Heb eu cofrestru'n Elusen gyda chysylltiadau lleol, a heb eu sefydlu na'u rhedeg am elw	0%	50%
(c)	Wedi'u cofrestu'n Elusen ond heb gysylltiadau lleol	80%	0%
3	**MUDIADAU'N GWASANAETHU POBL HYN**		
(a)	Wedi'u cofrestu'n Elusen ac er budd pobl leol	80%	20%
(b)	Wedi'u cofrestu'n Elusen ond heb gysylltiadau lleol	80%	0%
(c)	Heb eu cofrestru'n Elusen ond er budd pobl leol, a heb eu sefydlu na'u rhedeg am elw	0%	50%
(ch)	Heb eu cofrestru'n Elusen gyda darpariaeth ar gyfer pobl tu allan i ardal y Cyngor, ond eto o natur dyngarol a heb eu sefydlu na'u rhedeg am elw	0%	10%
4	**MUDIADAU NAD YDYNT AM ELW A'U HAMCANION YN DDYNGAROL, LLENYDDOL NEU'N YMWNEUD A CHELFYDDYDAU CAIN**		
(a)	Wedi'u cofrestu'n Elusen, yn gweithredu yn benodol er budd pobl Gwynedd, a'r aelodaeth yn agored i unrhyw un	80%	20%
(b)	Wedi eu cofrestu'n elusen, ond er budd rhai o bobl Gwynedd yn unig gan fod yr aelodaeth yn gyfyngedig	80%	0%
(c)	Heb eu sefydlu na'u rhedeg am elw, ond heb eu cofrestru fel elsuen, ond er budd pobl Gwynedd gyda'r aelodaeth yn agored i unrhyw un (Swyddogion i gyfeirio achosion i'r Aelod Cabinet lle mae amheuaeth ynglyn a'u amcanion)	0%	100%
(ch)	Wedi'u cofrestru'n Elusen ond heb gysylltiadau lleol	80%	0%
5	**MUDIADAU O DDIDDORDEB ARBENNIG I RAI**		
(a)	Wedi'u cofrestru'n Elusen ac er budd pobl leol	80%	20%
(b)	Heb eu cofrestu'n Elusen ond er budd pobl leol a heb eu sefydlu na'u rhedeg am elw	0%	50%
(c)	Wedi'u cofrestru'n Elusen ond heb gysylltiadau lleol	80%	0%

	Categori y Rhyddhad	Mandadol (Adran 43 Deddf 1988)	Dewis Lleol (Adran 47 Deddf 1988)
6	**AMGUEDDFEYDD**		
(a)	Wedi'u cofrestu'n Elusen	80%	20%
(b)	Heb eu cofrestru'n Elusen ond yn gorff sydd ddim am elw ac er budd pobl leol	0%	100%
7	**EIDDO A DDEFNYDDIR AT BWRPASAU ADDYSGOL NEU'N YMWNEUD A DIWYLLIANT**		
(a)	Gan Elusen gofrestredig sydd yn gweithredu er budd pobl leol gyda'r aelodaeth yn agored, gan gynnwys Ysgolion dan Gymorth Gwirfoddol	80%	20%
(b)	Wedi eu cofrestru, er budd rhai o bobl Gwynedd gan fod yr aelodaeth gyfyngedig	80%	0%
(c)	Heb eu cofrestru'n Elusen ond heb eu sefydlu na'u rhedeg am elw, ac yn bodoli er budd y gymuned leol gyda'r aelodaeth yn agored	0%	50%
8	**COLEGAU**	80%	0%
9	**SIOPAU ELUSENNOL**		
(a)	Mwyafrif y deunydd a werthir wedi eu rhoddi yn hytrach nag yn "stoc newydd" na "nwyddau wedi'u prynu fewn"	80%	20%
(b)	Mwyafrif y deunydd a werthir yn "stoc newydd" neu'n "nwyddau wedi'u prynu fewn"	80%	0%
10	**EIDDO'R YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL**	80%	0%
11	**HOSTELAU AWYR AGORED / HAMDDEN A REOLIR GAN FUDIADAU ELUSENNOL COFRESTREDIG CENEDLAETHOL**		
(a)	Hostelau Awyr Agored / Hamdden gyda defnydd gan drethdalwyr Gwynedd	80%	20%
(b)	Hostelau Awyr Agored / Hamdden lle mae defnydd wedi ei gyfyngu i ddefnyddwyr o'r tu allan i Wynedd	80%	0%
12	**EIDDO'R R.S.P.C.A. / R.S.P.B.**	80%	0%
13	**CYMDEITHASAU TAI**		
(a)	Swyddfeydd	80%	0%
(b)	Ty dan berchnogaeth Cymdeithas Tai sydd wedi ei drosi i eiddo annomestig er budd trigolion ardal benodol	80%	20%
14	**EIDDO SY'N CAEL EI DDEFNYDDIO AT BWRPASAU HAMDDEN GAN GLWB, CYMDEITHAS NEU GORFF ARALL SYDD DDIM YN ELUSEN NA CASC, OND SYDD DDIM WEDI CAEL EI SEFYDLU NA'I REDEG AM ELW**		
(a)	Gydag aelodaeth lleol (>=90% yn byw yng Ngwynedd neu yn y siroedd sy'n amgylchynu Gwynedd)	0%	100%
15	**CORFF SYDD HEB EI GOFRESTRU'N ELUSEN OND SY'N ELUSENNOL EI NATUR (Swyddogion i gyfeirio pob cais i'r Aelod Cabinet, a rhaid adolygu'r "natur elusennol" yn flynyddol)**		
(a)	Addysgol	80%	0%
(b)	Cyffredinol, er budd y gymuned leol	80%	0%

Categori y Rhyddhad		Mandadol (Adran 43 Deddf 1988)	Dewis Lleol (Adran 47 Deddf 1988)
17	**CLWB CHWARAEON AMATUR CYMUNEDOL (CASC) NEU EIDDO SY'N CAEL EI DDEFNYDDIO AT BWRPASAU HAMDDEN GAN ELUSEN GOFRESTREDIG**		
(a)	Gydag aelodaeth lleol (>=90% yn byw yng Ngwynedd neu yn y siroedd sy'n amgylchynu Gwynedd)	80%	20%
(b)	Heb aelodaeth leol (<90% yn byw yng Ngwynedd neu yn y siroedd sy'n amgylchynu Gwynedd)	80%	0%

Bydd hawl gan fudiadau i apelio os ydynt yn credu eu bod yn teilyngu mwy o ryddhad nac eraill, a bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau unigol o'r fath